**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

24 Mai 2022

**Bwlio hiliol mewn ysgolion**

Annwyl Jeremy,

Fel pobl ar draws y wlad, roeddwn wedi fy arswydo gan yr achos ofnadwy o fwlio hiliol honedig ym Mlaenau Gwent, a arweiniodd at blentyn yn dioddef o anaf mor ddifrifol. Rwy'n croesawu eich datganiad a wnaed ddoe (23 Mai). Rwy'n gwerthfawrogi bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r digwyddiad, ac nid wyf yn ceisio sylwadau ar fanylion yr achos unigol.

Gan adeiladu ar eich datganiad, a allwch roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y materion a ganlyn:

- sut y gall Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gefnogi ysgolion unigol i fynd i'r afael yn benodol â bwlio sy'n cael ei gymell gan hil mewn ysgolion, a sut maent yn eu cefnogi;
- pa gymorth fydd yn cael ei roi ar waith i gefnogi ysgolion i weithredu'r canllawiau gwrth-fwlio statudol wedi'u diweddaru a fydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi;
- sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion, ymarferwyr a llywodraethwyr i fanteisio ar yr hyfforddiant gwrth-fwlio y soniwyd amdano yn y datganiad;
- pa ddata a gesglir ar lefel leol neu genedlaethol yn ymwneud ag achosion o fwlio â chymhelliad hiliol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn dydd Gwener 10 Mehefin fan bellaf.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.